

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016



Os ydych chi neu rywun rydych yn ei adnabod yn dymuno cael y ddogfen hon mewn ffurf amgen, cysylltwch â'r Uwch Swyddog:  
Amrywiaeth ar [diversity@nptcgroup.ac.uk](mailto:diversity@nptcgroup.ac.uk) neu 01639 648175 /  
07825 231627

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016

## Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae Coleg Castell-nedd Port Talbot yn falch o gyhoeddi ei ail Gynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n cwmpasu'r cyfnod 2016 hyd 2020 yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Cymerodd y ddeddf hon le ystod eang o ddeddfwriaethau gwrth-wahaniaethu ym Mhrydain yn ogystal ag ymestyn y cwmpas o warchodaeth i gynnwys naw nodwedd warchoddedig.

Rhestrir isod y nodweddion gwarchoddedig a gaiff eu cynnwys yn y gyfraith; (gweler atodiad 1 am ddisgrifiad manylach o bob nodwedd)

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd a chred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Priodas a Phartneriaeth\*

\* dim ond o ran yr angen i ddiddymu gwahaniaethu

Nod deddf 2010 yw cryfhau'r gyfraith, llyfnhau anghysonderau a darparu eglurder i'r rhai y mae arnynt angen sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddf. Yn ogystal, mae'n darparu canllaw ac amddiffyniad i unigolion a grwpiau ac i unrhyw unigolyn sy'n chwilio am gyngor ar faterion cydraddoldeb.

Mae'n ofynnol i gorff cyhoeddus rhestredig gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb yn rheolaidd a gall y corff adolygu'r amcanion yn unol â'r canllawiau cyhoeddedig.

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016

Roedd ein CCS (SEP) cyntaf a'r amcanion cydraddoldeb cysylltiedig yn llwyddiannus o ran dechrau'r broses o brif ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn i holl swyddogaethau'r coleg. Wrth gynllunio'r ail gynllun, awn ati i adeiladu ar gryfderau'r cynllun blaenorol ynghyd â rhoi cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wraidd popeth y gwnawn yn y Grŵp NPTC.

Yn gorff cyhoeddus rhestredig, mae gan y Coleg gyfrifoldebau o dan y ddeddf hon i gydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, sef y ddyletswydd gyffredinol. Mae gan y ddyletswydd gyffredinol dair elfen ac mae angen i gyrrff cyhoeddus roi sylw priodol i'r tair ohonynt.

Y tair elfen, neu'r 'nodau' fel y cyfeirir atynt fel arfer yw;

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu a dioddef anghyfreithlon ac ymddygiad arall a gaiff ei wahardd gan y ddeddf.
2. Symud cydraddoldeb cyfleoedd ymlaen rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rhai nad ydynt yn eu rhannu.
3. Meithrin perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt yn eu rhannu.

Trwy weithredu'r dyletswyddau cyffredinol yng ngwaith y Coleg, y nod fydd i sicrhau ein bod yn lleihau anfanteision, yn ceisio bodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle maent yn wahanol i anghenion pobl eraill a cheisio annog pobl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus lle nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol. I feithrin perthnasau da, mae angen i ni daclo rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pawb.

Mae'r ddeddf yn nodi'n benodol y gallai cyflawni'r ddyletswydd hon olygu trin rhai unigolion yn fwy ffafriol nag eraill.

## Dyletswyddau Penodol

Mae Cymru wedi mynd â'r agenda cydraddoldeb lawer ymhellach na chenhedloedd eraill y DU ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu set o ddyletswyddau penodol a luniwyd i fanylu ar y camau y mae angen i gorff cofrestredig eu cymryd i arddangos ei fod yn talu sylw haeddiannol i'r ddyletswydd gyffredinol.

Cyflwynwyd y dyletswyddau penodol hyn i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol fel yr amlinellir uchod. Lluniwyd y dyletswyddau penodol i sicrhau y caiff materion cydraddoldeb eu cynnwys wrth gynllunio polisi ac o fewn darpariaeth gwasanaeth. Mae'r dyletswyddau'n gofyn i'r Coleg ddyfeisio proses arolygu a darparu tystiolaeth am ganlyniadau'r gweithredoedd a wnaethpwyd i fodloni'r Amcanion Cydraddoldeb.

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb perthnasol eu hunain yn ofyniad yn y dyletswyddau penodol ac yn un y mae'r Coleg wedi bod yn gweithio tuag ato ers peth amser. Prif bwrpas y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw cofnodi'r camau y mae corff rhestredig yn eu cymryd i gyflawni'r dyletswyddau penodol mewn un ddogfen gyhoeddedig. Rhaid i'r cynllun fod ar gael yn gyhoeddus ac mewn ffurf hygrych.

Er mwyn sicrhau bod ein cynllun yn gynhwysfawr, yn gadarn ac yn berthnasol, roeddem yn cael ein harwain bob amser gan flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, canllaw'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a deddfwriaeth berthnasol y DU.

## Trosolwg o'r Grŵp NPTC

### Cefndir y Sefydliad

Daeth Grŵp o Golegau NPTC i fodolaeth ar 1 Awst 2013. Fe'i crëwyd o ganlyniad i'r broses uno rhwng Coleg Castell-nedd Port Talbot a Choleg Powys. Grŵp o Golegau NPTC yw un o'r grwpiau mwyaf o golegau ac un o'r darparwyr addysg mwyaf yng Nghymru o ran y nifer o fyfyrwyr ac mae ei throsiant blynyddol yn cyfateb i bron £55 miliwn. Mae'r pedwar prif gampws yn cynnig darpariaeth ym mhob maes galwedigaethol o addysg a hyfforddiant, gan gynnwys Academi 6ed Dosbarth ragorol a leolir yng Nghampws Castell-nedd.

Mae'r Grŵp yn darparu ystod eang o hyfforddiant wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer diwydiant drwy'i gangen fasnachol 'trainingwales.com'. Y Coleg yw'r prif ddarparwr a daliwr cytundeb yn Academi Sgiliau Cymru hefyd. Dyna bartneriaeth o wyth o ddarparwyr addysg profiadol iawn sy'n darparu cytundeb dysgu seiliedig ar waith gwerth £10 miliwn, ar y cyd, sef y cytundeb sector cyhoeddus mwyaf yng Nghymru. Mae gan y Grŵp hefyd ysgol ieithoedd rhyngwladol yn Hampshire o'r enw LSI Portsmouth. Asesir yr ysgol yn annibynnol fel 'gwneud yn well na'r disgwyl ym mhob maes' yn ôl yr Arolygiad ISI diweddar o Golegau Addysg Bellach preifat. Mae myfyrwyr rhyngwladol o fwy na 50 o wledydd yr UE a gwledydd eraill yn mynychu'r Coleg. Mae'r Grŵp hefyd yn berchen ar bump o is-gwmnïau yn gyfan gwbl.

Mae'r Grŵp o Golegau NPTC yn cwmpasu traean o dirfas Cymru. Mae ganddo bedwar prif ganolfan gweithredu: Campws Afan, Campws Bannau Brycheiniog, Campws Castell-nedd a Champws Y Drenewydd. Man gan y Grŵp hefyd ganolfannau llai gan gynnwys: Campws Pontardawe; Campws Maesteg; Campws Stryd y Frenhines; Campws Abertawe; Campws Llandrindod ac Academi Chwaraeon ar flaen y gad ym Mharc Llandarcy. Yn ddaearyddol, mae hynny'n golygu bod mwy na 100 milltir rhwng ein campws mwyaf gogleddol a'n campws mwyaf deheuol. Sut bynnag mae ein his-gwmnïau hefyd yn gweithredu o leoliadau amrywiol yn Abertawe, Llandarcy, Llanelli a Portsmouth.

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016

## Hyrwyddo Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Grŵp NPTC, a Chodi Ymwybyddiaeth Ohono

Gwelir hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y Grŵp NPTC yn rhan annatod o'n gwaith a datganiad cenhadaeth y Coleg yw sicrhau mai ef yw'r;

### 'darparwr dysgu gorau yng Nghymru.'

Mae datganiad cenhadaeth y Coleg yn ein hymrwymo 'i osod cyfiawnder ac amrywiaeth yn egwyddorion arweiniol'.

Nod canolog ein gwaith yw galluogi llwyddiant i'n holl ddysgwyr drwy ddarparu addysgu a chyfleoedd dysgu hyblyg o safon uchel ar draws ystod eang o ddisgyblaethau galwedigaethol ac academaidd. Yn ogystal, rydym yn ceisio bod yn gyflogwr cyfrifol a gwerthfawr i'n staff, yn ddarparwr gwasanaeth llwyddiannus yn ein mentrau masnachol ac yn bartner brwdfrydig yn ein gweithgareddau cymunedol.

Mae ein datganiadau gwerth yn gosod ein hymrwymadau o ran ein dulliau o sicrhau ein bod yn cyrraedd y safonau uchaf.

## Datganiadau Gwerth

Mae Grŵp NPTC yn ymrwymedig i

- Ganolbwyntio ar fyfyrwyr a dysgu yn ein gweithredoedd
- Bod yn ofalgar ac yn gynhwysol yn ein hagweddau
- Bod yn gyfrifol ac yn barchus yn ein hymddygiad
- Sicrhau bod cyfiawnder ac amrywiaeth yn egwyddorion arweiniol i ni
- Bod yn broffesiynol ac yn gorfforaethol
- Bod yn fentrus ac yn arloesol yn ein rhagolwg
- Bod yn oddefgar ac yn gefnogol yn ein hymatebion

Mae staff yn ymwybodol o'r rôl y mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu chwarae drwy'r prosesau recriwtio a dewis, yn ystod eu hanwythiad a thrwy fodiwl hyfforddi ar-lein a hyfforddiant swydd benodol.

Mae myfyrwyr yn mynd i'r afael â chydaddoldeb ac amrywiaeth drwy'r broses anwytho ac yn ystod y rhaglen diwtorial i sicrhau dealltwriaeth. Caiff cynnwys a dull cyflwyno tiwtorialau eu hadolygu'n flynyddol ac mae'r Coleg yn casglu adborth y myfyrwyr ar berthnasedd ac effeithiolrwydd y tiwtorialau.

Rydym yn ceisio gwneud y mwyaf o bob cyfle i brif ffrydio amrywiaeth o fewn digwyddiadau presennol Grŵp NPTC a hefyd i roi cynnig ar syniadau arloesol lle bo'n bosibl.

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016

Rydym yn credu bod cyfleoedd cyfartal wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud a'i fod yn ganolog i gyflawni ein cenhadaeth ac i hyrwyddo llwyddiant i'n holl fyfyrwyr. Mae Grŵp NPTC yn sefydliad cynhwysol ac mae'n credu ei fod yn hanfodol i bob aelod o gymuned y Coleg deimlo'n werthfawr a'u bod yn gallu cyflawni eu potensial. Elfen bwysig o'r weledigaeth hon yw nad yw cydraddoldeb nac amrywiaeth yn bryderon ar wahân nac yn rhai ychwanegol, ond eu bod yn ganolog i'n bywyd a'n gwaith Coleg.

## Cyhoeddi a Hygyrchedd

Bydd Grŵp NPTC yn sicrhau y caiff y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb eu cyhoeddi erbyn 2 Ebrill 2016 yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd y ddogfen hon ar gael ar wefan y Coleg ac ar fewnwyd y myfyrwyr a'r staff yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd copïau caled ohonynt ar gael ar gais ym mhob campws a byddant ar gael mewn ffurfiau amgen yn ôl yr angen

Bydd ffurfiau amgen ar gael yn unol â'n datganiad safonau hygyrchedd;

**Os ydych chi neu rywun rydych yn ei adnabod yn dymuno cael y ddogfen hon mewn ffurf amgen, cysylltwch â'r Uwch Swyddog: Amrywiaeth ar [diversity@nptcgroup.ac.uk](mailto:diversity@nptcgroup.ac.uk) neu 01639 648175 / 07825 231627.**

## Cyflogaeth – Gwybodaeth a Data Cydraddoldeb

Yn gyflogwr, mae Grŵp NPTC wedi casglu gwybodaeth yn barod mewn perthynas ag ethnigrwydd, rhyw, statws perthynas, anabledd ac oedran, ac yn ystod proses ddethol, mae'n sicrhau y cwblheir rhestr fer heb gyfeirio at y nodweddion hyn. Mae Grŵp NPTC yn gweithredu system AD er mwyn galluogi staff i gwblhau a newid eu cofnod eu hun ar-lein. Defnyddir y data i lunio adroddiadau a dadansoddiadau yn y dyfodol gyda'r disgwyl y bydd yr wybodaeth yn darparu ystadegau mwy cadarn a chyflawn.

## Caffael

Mae Grŵp NPTC yn cydymffurfio gyda holl ddeddfwriaethau caffael yr UE a'r DU sy'n berthnasol, yn enwedig yr egwyddor o beidio â gwahaniaethu, ac yn gweithredu'r rheolau i bob tendr mewn modd teg a thryloyw.

Mae'r Coleg yn hysbysebu contractau ar y wefan gaffael genedlaethol – [sell2wales.co.uk](http://sell2wales.co.uk). Bydd cyflenwyr o Restr Gymeradwy'r Coleg hefyd yn cael eu gwahodd i dendro am dendrau/dyfyndbrisiau o werth isel ac uchel a gyhoeddir gan y Coleg.

Mae gan sefydliadau'r trydydd sector y cyfle i dendro am gontractau'r Coleg drwy [sell2wales](http://sell2wales.co.uk).

# **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016**

## **Monitro ac Adolygu Gweithdrefnau**

Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb yn cael eu monitro yn bennaf gan y Grŵp Rheoli Amrywiaeth. Bydd yr Uwch Swyddog: Amrywiaeth yn casglu'r wybodaeth sy'n berthnasol i gynnydd y gweithredoedd a luniwyd i fodloni'r amcanion cydraddoldeb. Bydd yr amcanion yn cael eu hadolygu gan y Grŵp Rheoli Amrywiaeth ac adroddir am y cynnydd bob tymor yn ogystal ag adolygiad mewnol blynyddol. Ceisir am dystiolaeth i gefnogi'r broses fonitro ac i roi gwybod am y cynnydd hyd yn hyn.

Lle nad yw'r gweithredoedd yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir, gellir gwneud dyfarniad i addasu'r gweithredoedd a/neu'r amcan ar ôl adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael.

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016

## Atodiad 1

### Nodweddion gwarchoddedig: diffiniadau

#### Oedran

Lle cyfeirir at hyn, mae'n cyfeirio at unigolyn sy'n perthyn i oedran penodol (e.e. 32 mlwydd oed) neu ystod o oedrannau (e.e. 18 – 30 mlwydd oed).

#### Anabledd

Mae gan unigolyn anabledd os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol hirdymor ar allu'r unigolyn i wneud gweithgareddau cyffredin o ddydd i ddydd.

#### Ailbennu rhywedd

Y broses o drawsnewid o un rhywedd i'r llall.

#### Priodas a phartneriaeth sifil

Priodas - rhwng cyplau o'r un rhyw neu ryw wahanol, Partneriaeth Sifil - rhwng cyplau o'r un rhyw.

#### Beichiogrwydd a mamolaeth

Beichiogrwydd yw'r cyflwr o fod yn feichiog neu ddisgwyl babi. Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod wedi'r geni, ac mae'n berthnasol i'r cyfnod mamolaeth yng nghyd-destun cyflogaeth. Mewn cyd-destun sy'n wahanol i'r gwaith, 26 wythnos yw hyd y diogelwch yn erbyn gwahaniaethu mamolaeth wedi'r enedigaeth, ac mae hyn yn cynnwys trin menyw yn anffafriol oherwydd ei bod yn bwydo o'r fron.

#### Hil

Mae'n cyfeirio at y nodweddion hil gwarchoddedig. Mae'n cyfeirio at grŵp o bobl sy'n cael eu diffinio gan eu hil, eu lliw a'u cenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth) neu darddiad ethnig neu genedlaethol.

#### Crefydd a chred

Mae gan grefydd yr ystyr a roddir iddi fel arfer, ond mae cred yn cynnwys credoau crefyddol ac athronyddol gan gynnwys diffyg cred (e.e. Anffyddiaeth). Yn gyffredinol, dylai cred effeithio ar eich dewisiadau mewn bywyd neu'r ffordd rydych yn ei fyw er mwyn iddi gael ei chynnwys yn y diffiniad.

#### Rhyw

Dyn neu fenyw.

#### Cyfeiriadedd rhywiol

Os yw atyniad rhywiol unigolyn tuag at yr un rhyw, y rhyw arall neu'r ddau.



# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016

## Ymgynghoriad ac Ymrwymiad

I sicrhau bod cymaint â phosibl o aelodau o'r Coleg a'r gymuned ehangach wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, fe wnaethom ddefnyddio'r dulliau canlynol o gysylltu:

- Gwefan Grŵp NPTC
- Anfonwyd negeseuon e-bost yn rheolaidd at rwydweithiau, fforymau a phartneriaid a chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd
- Cyfryngau cymdeithasol y Coleg
- Mewnrwyd y staff a'r myfyrwyr
- Moodle y Coleg
- Roedd copïau caled ar gael ym mhob derbynfa, yn y Canolfannau Adnoddau Dysgu a Gwasanaethau Myfyrwyr
- Anfonwyd e-bost at bob aelod o staff gan y Grŵp Rheoli Amrywiaeth
- Daethpwyd y pwnc i sylw'r rheolwyr llinell drwy e-bost ac mewn cyfarfodydd adrannol
- Gwnaeth yr Uwch Dîm Reoli gwrdd i ystyried yr amcanion
- Aethpwyd at y Corff Llywodraethu
- Defnyddiwyd allfeydd masnachol y Coleg e.e. Theatr Nidum, y crèche a'r Popty i gael yr ystod gorau posibl o ymatebwyr